# SL(6)580 – Rheoliadau Bara a Blawd (Cymru) 2025

## Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â bara a blawd sydd i’w werthu yng Nghymru, neu ei fewnforio neu ei symud i Gymru. Mae’r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli (gyda diwygiadau) Reoliadau Bara a Blawd 1998 (“Rheoliadau 1998”) i’r graddau y mae’r rheoliadau hynny’n gymwys o ran Cymru.

Mae Rheoliadau 1998 yn sefydlu gofynion cyfansoddiadol a labelu ar gyfer bara a blawd. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio darpariaethau ar atgyfnerthu blawd gwenith nad yw’n gyflawn yn orfodol drwy ychwanegu asid ffolig at y rhestr o sylweddau gofynnol ac yn diweddaru'r gofynion presennol ar gyfer ychwanegu calsiwm carbonad, haearn, niasin a thiamin yn orfodol.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn cynnwys esemptiadau ar gyfer blawd a gynhyrchir gan felinau bach, yn cyflwyno dull hysbysiad gwella o orfodi, ac yn cynnwys darpariaeth drosiannol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu’r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i’r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 5 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â’i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o “flour” (“blawd”), mae'r testun Saesneg yn cynnwys y geiriau “*and includes **meal***”. Mae'r testun Cymraeg cyfatebol yn nodi “ac mae'n cynnwys **blawd**”.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw wedi ystyried geiriad amgen ar gyfer y ddarpariaeth hon, er mwyn gwahaniaethu rhwng “flour” a “meal” yn nhestun Cymraeg y diffiniad.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â’i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 7(1) yn cynnwys esemptiadau o reoliadau 3 i 5 ar gyfer bara a blawd a gynhyrchir ar gyfer defnyddiau esempt sy'n cynnwys bara i'w ddefnyddio wrth gynhyrchu bwyd sydd i'w allforio i drydedd wlad.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio a yw'r defnydd esempt penodol hwn yn gyson ag esemptiadau cyfatebol sy'n gymwys yn Lloegr a'r Alban yn unol â rheoliad 3 o Reoliadau 1998 (fel y'u diwygiwyd), yr ymddengys eu bod yn esemptio blawd yn unig at y diben hwnnw (yn hytrach na blawd a bara).

**3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn y Tabl yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, yn y testun Cymraeg, mae "*CI Pigment White 18; Chalk*" yn ymddangos yn Saesneg.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro a gafodd y testun hwn ei gynnwys yn fwriadol.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rhes gyntaf y Tabl yn Atodlen 3, mae'r testun Saesneg yn nodi "*Iron powder **consisting essentially** of finely-divided metallic iron…*".

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro:

a) yr ystyr a gyfleir gan "*consisting essentially*" yn y cyd-destun hwn; ac

b) a yw'n ystyried bod y testun Cymraeg cyfatebol ("*wedi ei gyfansoddi*") yn dwyn ystyr cyfatebol.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae testun Saesneg y cofnod yn erbyn 'Solubility' yn y Tabl yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn yn cynnwys y geiriau "***weight in weight** hydrochloric acid…*".

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw'r geiriau "weight in weight" wedi'u cynnwys ar gam, o ystyried bod y testun Cymraeg yn awgrymu y dylai'r ymadrodd ""***by weight of** hydrochloric acid*" ymddangos yn y ddarpariaeth hon.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae’r Memorandwm Esboniadol sy’n gysylltiedig â’r Rheoliadau hyn yn nodi:

> *Bu’r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru (ASB) ochr yn ochr ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Ngogledd Iwerddon a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) yn cydweithio ar adolygiad o bolisi yn ymwneud â bara a blawd. Mae’r adolygiad hwn yn cael ei gynnal o dan fframwaith cyffredin ar gyfer Safonau Cyfansoddiad a Labelu Bwyd er mwyn ceisio alinio polisi’r DU cyn belled ag y bo modd. Ymgymerwyd â’r gwaith hwn hefyd ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), Llywodraeth yr Alban ac Adran Iechyd Gogledd Iwerddon sy’n gyfrifol am faterion iechyd y cyhoedd. Cafodd ychwanegu asid ffolig at flawd ei ystyried hefyd gan swyddogion o bob rhan o’r DU o dan fframwaith ar gyfer Safonau Cyfansoddiad a Labelu Maeth (NLCS). Mae hyn oherwydd bod ychwanegu fitaminau a mwynau at fwyd yn dod o fewn cwmpas y fframwaith hwn.”*

**7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Mae’r Memorandwm Esboniadol yn disgrifio’r ymgynghoriad ffurfiol, DU gyfan, a gynhaliwyd rhwng 1 Medi a 23 Tachwedd 2023. Rydym hefyd yn nodi bod trafodaeth hirsefydlog ar y polisi o atgyfnerthu blawd yn orfodol ag asid ffolig, a bu’n destun ymgynghoriad blaenorol yn 2019.

Mae’r crynodeb llawn o’r ymatebion i ymgynghoriad 2023, a geir ar wefan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU, yn tynnu sylw at y ffaith bod safbwyntiau amrywiol wedi’u codi am atgyfnerthu asid ffolig gorfodol, gan gynnwys y risgiau iechyd posibl i bobl hŷn, a’r mesurau lliniaru posibl, megis atgyfnerthu B12, sy’n gysylltiedig.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i bwyntiau adrodd technegol 1 – 5.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.